

CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Busnes Adwerthu (Dyfarniad Technegol)

MANYLEB

I'w haddysgu o 2022

I'w dyfarnu o 2024

Crynodeb o newidiadau

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen

DRAFT

Cynnwys

1. Trosolwg o'r cymhwyster	3
1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?	4
1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Busnes Adwerthu (Dyfarniadau Technegol)	4
1.3 Amcanion y cymhwyster	5
1.4 Gofynion dysgu blaenorol	5
2. Cipolwg ar y fanyleb	6
2.1 Cynnwys y Pwnc	6
2.2 Trosolwg o'r asesu	6
2.3 Amcanion asesu	7
3. Unedau	8
3.1 Fformat yr unedau	8
3.2 Ymhelaethiad	8
Uned 1	9
1.1 Cyflwyniad i fusnes adwerthu	10
1.2 Yr amgylchedd busnes adwerthu	12
1.3 Defnyddio data ac argymhell atebion i faterion busnes	14
Uned 2	15
Cyflwyniad i wasanaeth i gwsmeriaid	16
2.2 Bodloni disgwyliadau cwsmeriaid	17
2.3 Ymchwilio i brofiadau cwsmeriaid mewn busnesau adwerthu	18
Uned 3	19
3.1 Marsiandiaeth weledol ar gyfer busnes adwerthu	21
3.2 Marchnata busnesau a chynhyrchion adwerthu	23
4. Asesiadau	26
4.1 Asesiad Allanol (Uned 1)	26
4.2 Asesiad mewnol (Unedau 2 a 3)	26
4.3 Asesiad synoptig	26
4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr	27
4.5 Rheoli'r asesiadau	27
5. Orlau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso	28
5.1 Orlau Dysgu dan Arweiniad	28
5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso	28
6. Cofrestriadau	29
6.1 Cymeradwyo Canolfannau	29

6.2 Dulliau Cofrestru	29
Cofrestru ar gyfer unedau.....	29
Cofrestru ar gyfer y cymhwyster	30
Codau cofrestru	30
7. Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl	31
8. Trefniadau ailsefyll	32
8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio	32
8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio	32
8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau	32
9. Camymddwyn.....	33
9.1 Atal camymddwyn	33

1. Trosolwg o'r cymhwyster

Teitl y Cymhwyster	Busnes Adwerthu
Math o Gymhwyster yr AA	Dyfarniad Technegol
RhC Ofqual	603/7021/X
Cod Cymhwyster CBAC	
Cod Disgownt yr AA	
Grŵp oedran cymeradwy	14+
Addysgu am y tro cyntaf	Medi 2022
Ardystio am y tro cyntaf	Ionawr 2024
Dogfennau Allweddol	Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Canllaw Gweinyddu
Canllawiau Addysgu	Canllaw Asesu Canllaw Cyflwyno Canllawiau Addysgu Uned 1 Canllawiau Addysgu Uned 2 Canllawiau Addysgu Uned 3

1.1 I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Bwriad cymwysterau CBAC Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) yw cynnig cyfleoedd i ddysgwyr astudio pynciau galwedigaethol ar yr un pryd â chymwysterau TGAU a chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eraill. Bydd dysgwyr yn gwneud hyn yn rhan o raglen astudio eang.

Cawsant eu llunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed gan ganolbwyntio ar ddysgu mewn ffordd gymhwysol, h.y. caffael a chymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod yng nghyd-destun y sector neu'r pwnc. Mae ganddynt felly lawer o nodweddion gwaith real.

Mae'r cymwysterau Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) ar gael mewn 9 maes pwnc. Ar y rhestr isod, mae unrhyw bynciau â * yn bodloni gofynion Ofqual a'r AA ar gyfer cymwysterau'r tabl perfformiad CA4.

- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Peirianeg
- Digwyddiadau
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lletygarwch ac Arlwyo
- TGCh
- Celfyddydau Perfformio
- Busnes Adwerthu
- Chwaraeon ac Egwyddorion Hyfforddi

1.2 Trosolwg o'r sector ar gyfer CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Busnes Adwerthu (Dyfarniadau Technegol)

Mae gwir angen am gymwysterau mewn busnes adwerthu ac i ddarparwyr addysgol ddarparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc fynd i mewn i'r sector enfawr hwn yn y DU. Mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd y diwydiant adwerthu i economi'r DU; yn 2019, cynhyrchwyd gwerth £394 biliwn¹ o werthiannau adwerthu, sef 5% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU, a dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae busnesau adwerthu y DU wedi cynhyrchu ffigurau trosiant gwell yn gyson². Mae'r sector busnes adwerthu yn cyflwyno cyfleoedd cyflogaeth sy'n amrywiol ac yn eang; fel y cyflogwr mwyaf yn y sector preifat gyda chyfradd cyflogaeth gyfredol o bron 3 miliwn³, gall pobl ifanc anelu at lawer o gyfleoedd cyflogaeth o lawr y siop i'r ystafell arddangos, ac o swyddogaethau'r brif swyddfa i'r warws. Mae gwerth mawr mewn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i bobl ifanc eu defnyddio i ffurfio gyrfaedd yn y sector proffidiol ac amrywiol hwn.

¹ <https://www.retailconomics.co.uk/library-retail-stats-and-facts>

² <https://www.statista.com/statistics/287867/retail-sales-total-value-monthly-great-britain-gb/>

³ <https://www.retailconomics.co.uk/library-retail-stats-and-facts>

1.3 Amcanion y cymhwyster

Lluniwyd y Dyfarniad Galwedigaethol mewn Busnes Adwerthu i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion sydd am ddysgu am y sector galwedigaethol hwn a'i potensial o ran gyrfa neu astudio pellach. Mae ar ei fwyaf addas yn sylfaen i astudio pellach. Byddai unrhyw astudio pellach o'r fath yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin amrywiaeth o sgiliau arbenigol a chyffredinol a fyddai'n eu helpu wedyn i symud i fyd cyflogaeth.

1.4 Gofynion dysgu blaenorol

Er nad oes gofynion cofrestru ffurfiol, byddai'r sgiliau dysgu a'r doniau canlynol yn ddefnyddiol i ddysgwyr: hyfedredd sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd, rhywfaint o allu i weithio â chyfrifiaduron a chymhellant i weithio'n annibynnol.

1.5 Beth fydd dysgwyr yn ei astudio?

Cymhwyster unedol yw hwn sy'n cynnwys 3 o unedau gorfodol:

Uned	Teitl	Asesu	ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)
1	Busnes adwerthu	Allanol	48
2	Gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer busnes adwerthu	Mewnol	36
3	Marsiandio a marchnata cynhyrchion adwerthu	Mewnol	36

2. Cipolwg ar y fanyleb

2.1 Cynnwys y Pwnc

Mae Uned 1 yn cyflwyno dysgwyr i fusnes adwerthu ac yn rhoi'r cyfle iddynt archwilio natur ddynamig a chystadleuol y diwydiant adwerthu. Byddant yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o fathau gwahanol o fusnes adwerthu a gweithgaredd adwerthu, yn ogystal ag effaith ffactorau allanol ar y diwydiant (tudalen 9).

Mae Uned 2 yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer busnes adwerthu. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau mewn perthynas ag ymchwilio i'r profiad gwasanaeth i gwsmeriaid ar draws sefydliadau adwerthu (tudalen 15).

Mae Uned 3 yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd marsiandïo a marchnata cynhyrchion adwerthu, a sut mae busnesau adwerthu yn defnyddio marsiandïo a marchnata i gyflawni eu nodau. Bydd dysgwyr hefyd yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ddatblygu sgiliau mewn dylunio gosodiadau marsiandïaeth weledol a deunyddiau hyrwyddo sy'n cyflawni nodau penodol (tudalen 19).

2.2 Trosolwg o'r asesu

Crynodeb o'r Asesu	
Uned 1: Busnes adwerthu Arholiad ysgrifenedig: Hyd yr arholiad – 1 awr 30 munud 40% o'r cymhwyster	80 marc
Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio deunydd symbylu i ymateb i gwestiynau.	
Uned 2: Gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer busnes adwerthu Asesiad dan reolaeth: 6 awr 30% o'r cymhwyster	60 marc
Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau. Bydd ar gael ar Wefan Ddiogel CBAC.	
Uned 3: Marsiandïo a marchnata cynhyrchion adwerthu Asesiad dan reolaeth: 8 awr 30% o'r cymhwyster	60 marc
Bydd CBAC yn darparu briff yr aseiniad a fydd yn cynnwys senario a nifer o dasgau. Bydd ar gael ar Wefan Ddiogel CBAC.	

2.3 Amcanion asesu

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bob rhan o'r fanyleb.

AA2

Defnyddio sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.

AA3

Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau priodol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob cydran ac am y cymhwyster yn gyffredinol:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	16%	14%	10%	40%
Uned 2	4%	18%	8%	30%
Uned 3	4%	18%	8%	30%
Pwysoli cyffredinol	24%	50%	26%	100%

3. Unedau

3.1 Fformat yr unedau

Teitl yr uned:	Crynodeb fer o gynnwys yr uned.
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA):	Mae dysgu dan arweiniad yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu arolygwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwyliwr neu arolygwr. Dyrannwyd oriau dysgu dan arweiniad i bob uned i gefnogi'r gwaith cyflwyno. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn, ac argymhelliad felly yw nifer yr oriau i bob uned.
Cyd-destun galwedigaethol:	Sail resymegol alwedigaethol ar gyfer cynnwys yr uned.
Trosolwg o'r uned:	Crynodeb o gynnwys yr uned. Y rhan hon sy'n rhoi'r uned yn ei chyd-destun ac yn tynnu sylw at ddiben yr hyn y mae'r uned yn ei ddysgu.
Testunau:	Yn cynnwys rhestr o'r testunau y mae'r uned yn ymdrin â nhw.
Asesiad:	Crynodeb o ddull asesu'r uned.

3.2 Ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- mae 'Dylai dysgwyr wybod' wedi'i ddefnyddio ar gyfer galw ffeithiau i gof fel deddfwriaeth a diffiniadau.
- mae 'Dylai dysgwyr wybod a deall' wedi'i ddefnyddio ar gyfer mwyafrif cynnwys yr uned lle mae angen i'r wybodaeth arwain at ymdeimlad o ddealltwriaeth.
- mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' wedi'i ddefnyddio pan fo cyfanswm y cynnwys yn eithaf helaeth, ac nid oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd arno yn fanwl.
- mae 'Dylai dysgwyr allu' wedi'i ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth at senario neu sefyllfa ymarferol.

Cyflwynir cynnwys y pwnc mewn 3 uned, ac mae pob un wedi'i hisrannu yn feysydd testun clir a phenodol. Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynnol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn manylu ar y cynnwys sydd i'w astudio. Mae'r golofn ar y dde yn darparu ymhelaethiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y dylai dysgwyr eu datblygu yn y maes hwn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy golofn yn rhoi cynnwys llawn y fanyleb. Ni awgrymir unrhyw hierarchaeth gan drefn cyflwyno'r cynnwys, ac nid yw'r drefn ei hun yn awgrymu trefn addysgu benodol.

Mae'r ymhelaethiad yn y golofn ar y dde yn cwmpasu'r holl gynnwys sy'n cael ei asesu ar gyfer yr adran berthnasol, oni bai ei fod yn nodi 'e.e.', 'gan gynnwys' neu 'megis'. Yn yr achosion hyn, bydd yr ymhelaethiad yn rhestru cynnwys perthnasol y dyldid ei drafod ymhellach mewn ffordd briodol, gan ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr. Mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn awgrymu gorfodaeth (h.y. gellid gosod cwestiwn penodol ar yr agwedd honno). Cyfarwyddyd yn unig yw'r defnydd o'r geiriau 'e.e.' neu 'megis', a gellid dewis rhywbeth yn lle'r hyn a nodir.

Uned 1

Teitl yr uned	Busnes adwerthu
Cod cofrestru'r uned	
ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)	48
Cyd-destun galwedigaethol	Mae'r diwydiant adwerthu yn cynnig amrywiaeth eang o swyddi sy'n chwilio am unigolion ag amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth mewn perthynas â sut mae'r diwydiant adwerthu cyfan yn gweithio a sut mae ffactorau allanol yn effeithio arno. Mae'r uned hon yn archwilio'r wybodaeth sylfaenol am y materion hyn a bydd yn galluogi unigolion sy'n chwilio am yrfa mewn adwerthu i ddeall y gofynion a'r gwobrau sy'n rhan o weithio mewn diwydiant mor ddynamig a chystadleuol.
Trosolwg o'r uned	Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i natur ddynamig a chystadleuol y diwydiant adwerthu. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r mathau gwahanol o sefydliadau adwerthu sy'n cystadlu am gwsmeriaid a sut mae'r busnesau hyn yn cael eu rheoli er mwyn cyflawni eu nodau a darparu cyflenwad di-dor o gynhyrchion. Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd allanol y mae adwerthwyr yn gweithredu ynddo ac effaith ffactorau allanol ar eu gweithrediadau. Bydd dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r dealltwriaeth hon, yn ychwanegol at ddata busnes adwerthu, i nodi'r materion sy'n wynebu sefydliadau adwerthu mewn marchnad gystadleuol iawn ac i argymhell atebion i faterion busnes.
Testunau	1.1 Cyflwyniad i fusnes adwerthu 1.2 Yr amgylchedd busnes adwerthu 1.3 Defnyddio data ac argymhell atebion i faterion busnes adwerthu
Asesu	Asesir yr uned hon yn allanol drwy arholiad ysgrifenedig sydd ar gael ym mis Ionawr/Chwefror a mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Hyd: 1 awr 30 munud Nifer y marciau: 80 Fformat: cwestiynau ag atebion byr ac estynedig yn seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. Gofynnir i ddysgwyr ddefnyddio deunydd symbylu i ymateb i gwestiynau. Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster.

1.1 Cyflwyniad i fusnes adwerthu

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r nodweddion allweddol busnes adwerthu canlynol:

- 1.1.1 Mathau o weithgaredd busnes adwerthu
- 1.1.2 Mathau o berchnogaeth busnes adwerthu
- 1.1.3 Graddfa wahanol busnesau adwerthu
- 1.1.4 Nodau busnesau adwerthu
- 1.1.5 Meysydd swyddogaethol busnesau adwerthu
- 1.1.6 Cadwyn gyflenwi busnesau adwerthu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.1.1 Mathau o weithgaredd busnes adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall y mathau canlynol o weithgaredd busnes adwerthu a chynhyrchion adwerthu: • sianeli adwerthu gwahanol gan gynnwys siopau gwirioneddol, e-fasnach, m-fasnach, aml-sianeli, hybrid, consesiynau, siopau dros dro (<i>pop-up</i>), marchnadoedd a chatalogau • manteision ac anfanteision defnyddio sianeli adwerthu gwahanol • mathau gwahanol o adwerthwyr gan gynnwys siopau adrannol, archfarchnadoedd, warysau, siopau dillad/ffasiwn, siopau arbenigol (e.e. cosmetigau, chwaraeon, optegwyr, cwmnïau gwerthu ceir ac asiantaethau teithio), siopau cyfleustra, siopau disgownt, siopau annibynnol a siopau elusen • adwerthu ar-lein gan gynnwys ei dwf a'i bwysigrwydd parhaus i'r diwydiant adwerthu a'i fanteision a'i anfanteision i fusnes adwerthu. Mae adwerthu ar-lein yn cynnwys gwefan yr adwerthwr ei hun, marchnad trydydd-parti (fel Amazon, eBay, Etsy ac ati) a'r cyfryngau cymdeithasol (fel Facebook, Twitter, Pinterest ac ati) • mathau gwahanol o gynhyrchion adwerthu gan gynnwys cynhyrchion wedi'u masgynhyrchu a chynhyrchion arbenigol/cloer, cynhyrchion brand a chynhyrchion hunanlabel, cynhyrchion darfodus, cynhyrchion dan gyfyngiad, cynhyrchu ar raddfa fawr a chynhyrchu ar raddfa fach a nwyddau gwerth uchel.
1.1.2 Mathau o berchnogaeth busnes adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol: • nodweddion mathau gwahanol o berchnogaeth busnes, gan gynnwys unig fasnachwyr, partneriaethau, cwmnïau preifat a chwmnïau cyfyngedig, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau nid-er-elw ac elusennau • y gwahaniaethau rhwng atebolrwydd cyfyngedig ac atebolrwydd llawn, gan gynnwys deall y cysyniad a'r goblygiadau ar berchenogion busnes adwerthu • manteision ac anfanteision dewis mathau gwahanol o berchnogaeth busnes.

1.1.3 Graddfa wahanol busnesau adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall graddfa wahanol busnesau adwerthu, sef: • lleol – gan gynnwys adwerthwyr bach a chanolig, siopau annibynnol, stondinau marchnad, siopau cyfleustra, sianeli ar-lein a sianeli adwerthu eraill sy'n gweithredu mewn un ardal neu ardal fach • enedlaethol – gan gynnwys archfarchnadoedd, siopau adrannol, siopau ffasiwn, ar-lein a sianeli adwerthu eraill sy'n gweithredu'n genedlaethol ac sydd ag allfeydd lluosog yn gwerthu'r un cynhyrchion a gwasanaethau • byd-eang – gan gynnwys busnesau rhyngwladol sy'n gwerthu ledled y byd mewn siopau, ar-lein a sianeli adwerthu eraill sy'n gwerthu brandiau byd-eang. Dylai dysgwyr wybod a deall sut bydd graddfa wahanol busnesau adwerthu yn effeithio ar y canlynol: perchnogaeth, cyllid, dewis o gynnyrch, hyrwyddo, cynhyrchu, prynu, gweithwyr a defnydd o dechnoleg.
1.1.4 Nodau busnesau adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol: • prif fathau o nodau busnesau adwerthu gan gynnwys goroesi/adennill costau, gwneud yr elw mwyaf, cynyddu gwerthiant, cynyddu cyfran marchnad, rhoi boddhad i gwsmeriaid, amrywiaethu, bod yn foesebol, ymwybyddiaeth amgylcheddol, bod yn gyfrifol yn gymdeithasol, a nodau adwerthu penodol (e.e. datblygu dull aml-sianel, cyflwyno desgiau talu hunanwasanaeth a chyflwyno clicio a chasglu) • sut bydd nodau yn wahanol ar gyfer mathau gwahanol o berchnogaeth busnes adwerthu a graddfa wahanol busnes adwerthu • sut mae busnesau adwerthu yn defnyddio nodau i gyrraedd targedau yn y dyfodol ac i fesur perfformiad y busnes.
1.1.5 Meysydd swyddogaethol busnesau adwerthu	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: • meysydd swyddogaethol gwahanol busnesau adwerthu gan gynnwys prynu, logisteg, warysu, gwerthiant, gwasanaeth i gwsmeriaid, marchnata, cyllid, adnoddau dynol, gweinyddu a TGCh • meysydd swyddogaethol ar-lein a sut mae'r rhain yn debyg/gwahanol i siopau gwirioneddol. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r gweithgareddau mewn meysydd swyddogaethol gwahanol.

1.1.6 Cadwyn gyflenwi busnesau adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall tri cham canlynol cadwyn gyflenwi busnesau adwerthu: • cyrchu – gan gynnwys cost, ansawdd, amser dosbarthu, dibynadwyedd cyflenwyr a ffactorau moesegol ac amgylcheddol • logisteg – gan gynnwys cludo o'r man cynhyrchu, storio (warysu), pacio, diogeledd a dosbarthu i'r cwsmer • rheoli stoc – gan gynnwys bod â digon o stoc, cofnodi stoc a symudiadau stoc, gwirio lefelau stoc, ailarchebu stoc, cylchdroi stoc a delio â stoc wedi'i ddifrodi, wedi'i ddychwelyd ac wedi dyddio. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o sut mae mathau gwahanol o stoc yn cael eu storio gan gynnwys cynhyrchion darfodus, cynhyrchion nad ydynt yn ddarfodus, cynhyrchion wedi'u rhewi, nwyddau gwerth uchel, cynhyrchion bregus, cynhyrchion dan gyfyngiad, eitemau mawr a stoc byw. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: • y defnydd o dechnoleg i reoli stoc gan gynnwys y defnydd o systemau cyfrifiadurol, cronfeydd data, pwyntiau talu electronig ac archebu awtomataidd. • manteision defnyddio technoleg i reoli stoc.
---	--

1.2 Yr amgylchedd busnes adwerthu

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ganlynol o'r amgylchedd busnes adwerthu:

- 1.2.1 Yr amgylchedd cystadleuol a dynamig
- 1.2.2 Lleoliad busnesau adwerthu
- 1.2.3 Ffactorau allanol a busnesau adwerthu
- 1.2.4 Tymoroldeb a busnesau adwerthu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.2.1 Yr amgylchedd cystadleuol a dynamig	Dylai dysgwyr wybod a deall yr amgylchedd cystadleuol a dynamig, gan gynnwys y canlynol: • mae'r diwydiant adwerthu yn gystadleuol – rhaid i fusnesau adwerthu gystadlu â chystadleuwyr am gwsmeriaid drwy ddulliau fel prisiau rhatach, cynhyrchion o ansawdd, cynnig dewis ehangach o gynhyrchion, gwasanaeth i gwsmeriaid, hysbysebu, gweithgareddau hyrwyddo, cynllun y siop, defnyddio aml-sianeli a hyfforddi staff • mae'r diwydiant adwerthu yn ddynamig – mae'r amgylchedd adwerthu yn newid drwy'r amser, ac mae'n rhaid i fusnesau

	adwerthu ymateb i aros yn gystadleuol. Mae ffactorau sy'n ysgogi newid yn cynnwys technoleg, chwaeth defnyddwyr, disgwyliadau defnyddwyr, ffactorau cymdeithasol a ffactorau economaidd a gweithredoedd cystadleuwyr.
1.2.2 Lleoliad busnesau adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall lleoliad y busnesau adwerthu, gan gynnwys y canlynol: • y mathau gwahanol o leoliad ar gyfer busnesau adwerthu gan gynnwys trefol, gwledig, stryd fawr, lleol, canolfannau siopa, parciau adwerthu y tu allan i'r dref a chanolfannau trafndiaeth • nodweddion mathau gwahanol o leoliad gan gynnwys cost, isadeiledd, maint, hygyrchedd, cystadleuaeth, parcio a nifer yr ymwelwyr • sut mae nodweddion lleoliad yn dylanwadu ar leoliad busnesau adwerthu.
1.2.3 Ffactorau allanol a busnesau adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall bod yr amgylchedd allanol yn effeithio ar y diwydiant adwerthu a bod nifer o ffactorau allanol a fydd yn effeithio ar fusnesau adwerthu, gan gynnwys: • ffactorau economaidd – bydd newidiadau i'r hinsawdd economaidd dros amser yn effeithio ar fusnesau adwerthu gan gynnwys lefelau incwm gwario defnyddwyr, lefelau cyflogaeth a diweithdra, cyfraddau llog, cyfraddau treth a chwyddiant • ffactorau technolegol – gall technoleg newydd effeithio ar weithrediadau busnesau adwerthu gan gynnwys y rhyngwrdd, gwefannau, apiau, argaeledd band eang cyflymder uchel, storio yn y cwmwl, cyfryngau digidol, cyfryngau cymdeithasol, argaeledd Wi-Fi, ffonau clyfar, desgiau talu hunanwasanaeth, taliadau digyffwrdd, dronau dosbarthu a modelau rhithiol • ffactorau cymdeithasol – bydd newidiadau yn strwythur y boblogaeth (demograffeg) yn effeithio ar fusnesau adwerthu. Mae materion yn cynnwys maint y boblogaeth, strwythur oed y boblogaeth, newidiadau i ffyrdd o fyw, chwaeth ac agweddau defnyddwyr a newidiadau diwylliannol • ffactorau moesegol – gall arferion moesegol ac anfoesegol effeithio ar fusnes adwerthu, gan gynnwys cyrchu defnyddiau, sut mae gweithwyr yn cael eu trin, hawliau anifeiliaid, Masnach Deg, marchnata a gweithgareddau hyrwyddo • ffactorau amgylcheddol – gall gweithgaredd adwerthu effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd gan gynnwys cyfrannu at newid hinsawdd, llygredd, tagfeydd, dinistrio'r amgylchedd a gwaredu sbwriel. Dylai dysgwyr ddeall sut gall busnesau adwerthu leihau eu heffaith drwy fabwysiadu arferion ecogyfeillgar a gweithredu mewn ffordd gynaliadwy fel bagiau siopa mae'n bosibl eu hailddefnyddio, egni amgen a llai o ddefnydd pecynnu plastig.

1.2.4 Tymoroldeb a busnesau adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol: • mae tymoroldeb yn effeithio ar y diwydiant adwerthu ac mae'n effeithio ar sawl maes gan gynnwys dewis o gynnyrch, y gwasanaethau a gynigir, oriau agor, staffio, refeniw gwerthiant ac elw, hyrwyddiadau a mathau o gwsmeriaid • mae tymoroldeb yn cynnwys gwanwyn/haf/hydref/gaeaf, digwyddiadau calendr fel y Nadolig, Calan Gaeaf, Dydd Gwener Du, Dydd Santes Dwynwen, Sul y Mamau, Eid, y Pasg ac ati, digwyddiadau arbennig fel y Gemau Olympaidd, digwyddiadau brenhinol, gwyliau cerddorol, Cwpan y Byd Pêl-droed ac ati.
--	---

1.3 Defnyddio data ac argymhell atebion i faterion busnes

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ganlynol mewn perthynas â defnyddio data ac argymhell atebion i faterion busnes adwerthu:

- 1.3.1** Defnyddio data busnes adwerthu mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol
- 1.3.2** Defnyddio technegau mathemategol i gyfrifo data busnes adwerthu
- 1.3.3** Dehongli data busnes adwerthu
- 1.3.4** Llunio barn a chynnig atebion i faterion busnes adwerthu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
1.3.1 Defnyddio data busnes adwerthu mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol	Dylai dysgwyr allu defnyddio data busnes adwerthu, gan gynnwys data ansoddol a meintiol, tablau, siartiau a graffiau mewn cyd-destunau adwerthu gwahanol gan gynnwys niferoedd gwerthiant, refeniw gwerthiant, elw/colled, cyfran marchnad, nifer yr ymwelwyr a data economaidd.
1.3.2 Defnyddio technegau mathemategol i gyfrifo data busnes adwerthu	Dylai dysgwyr allu defnyddio technegau mathemategol i gyfrifo data busnes adwerthu, gan gynnwys cyfrifo canrannau, newidiadau canrannol, cyfartaleddau refeniw gwerthiant ac elw/colled.
1.3.3 Dehongli data busnes adwerthu	Dylai dysgwyr allu dehongli data drwy hidlo, dewis a dadansoddi data mewn cyd-destunau busnes adwerthu gwahanol.
1.3.4 Llunio barn a chynnig atebion i faterion busnes adwerthu	Dylai dysgwyr allu llunio barn a chynnig atebion i faterion busnes adwerthu, gan gynnwys: • gwerthuso data ansoddol a meintiol • llunio barn wybodus i ddatrys problemau ar gyfer busnesau adwerthu.

Uned 2

Teitl yr uned	Gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer busnes adwerthu
Cod cofrestru'r uned	
ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)	36
Cyd-destun galwedigaethol	Mae gwasanaeth i gwsmeriaid yn rhan hanfodol o'r amgylchedd adwerthu modern a bydd unigolion sy'n chwilio am waith yn y diwydiant adwerthu yn ffynnu os ydynt yn gallu deall disgwyliadau cwsmeriaid a dangos sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid. Bydd y wybodaeth a'r sgiliau yn yr uned hon yn eu galluogi i ddeall pwysigrwydd darparu gwasanaeth i gwsmeriaid o ansawdd uchel i amrywiaeth o gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd gwahanol.
Trosolwg o'r uned	Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i bwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i sefydliadau adwerthu. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion gwasanaeth i gwsmeriaid a sut mae sefydliadau adwerthu yn defnyddio'r rhain i roi profiad cadarnhaol i'w cwsmeriaid. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd bodloni disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid mewn siopau gwirioneddol ac ar-lein a sut gellir cyflawni hyn mewn amgylcheddau adwerthu gwahanol. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau ymchwilio i gasglu data er mwyn ymchwilio i ansawdd gwasanaeth i gwsmeriaid ar draws sefydliadau adwerthu gwahanol, gan ddadansoddi a chyflwyno canfyddiadau.
Testunau	2.1 Cyflwyniad i wasanaeth i gwsmeriaid 2.2 Bodloni disgwyliadau cwsmeriaid 2.3 Ymchwilio i brofiadau cwsmeriaid mewn busnesau adwerthu
Asesu	Asesir yr uned hon yn fewnol drwy asesiad dan reolaeth sydd ar gael ym mis Ionawr a mis Mai ym bob blwyddyn. Hyd: 6 awr Nifer y marciau: 60 Fformat: Bydd ymgeiswyr yn gwneud project ymchwil i ddarpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid busnes adwerthu o ddewis yr ymgeisydd. Bydd briff yr aseiniad yn cynnwys senario a nifer o dasgau. Bydd yn cael ei gyhoeddi i ganolfannau mewn pecyn asesu ymgeisydd

	drwy Wefan Ddiogel CBAC. Ni fwriedir i'r tasgau newid am hyd oes y cymhwyster. Os yw ymgeiswyr yn dewis ailsefyll asesiad yr uned hon yn ddiweddarach, rhaid iddynt ddewis busnes adwerthu arall. Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster.
--	--

Cyflwyniad i wasanaeth i gwsmeriaid

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o wasanaeth i gwsmeriaid, gan gynnwys:

- 2.1.1 Pwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i fusnesau adwerthu
- 2.1.2 Nodweddion gwasanaeth da i gwsmeriaid
- 2.1.3 Egwyddorion gwasanaeth da i gwsmeriaid
- 2.1.4 Sefyllfaoedd pan fydd busnesau adwerthu yn rhyngweithio â chwsmeriaid
- 2.1.5 Gwasanaethau i gwsmeriaid ar-lein.

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.1.1 Pwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i fusnesau adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall pwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i fusnesau adwerthu, gan gynnwys y canlynol: • gwasanaeth i gwsmeriaid yw'r rhyngweithio sy'n digwydd rhwng busnes adwerthu a'i gwsmeriaid, gan ofalu am ddisgwyliadau cwsmeriaid drwy roi cymorth proffesiynol o ansawdd uchel iddynt • gall ansawdd gwasanaeth i gwsmeriaid busnes adwerthu effeithio ar ei lwyddiant ac mae hyn yn cynnwys drwy gynyddu gwariant cwsmeriaid, cynyddu teyrngarwch cwsmeriaid, annog prynu eto, denu cwsmeriaid newydd, rhoi mantais gystadleuol a gwella enw da.
2.1.2 Nodweddion gwasanaeth da i gwsmeriaid	Dylai dysgwyr wybod a deall nodweddion gwasanaeth da i gwsmeriaid, gan gynnwys cyfarch cwsmeriaid, rhyngweithio â chwsmeriaid, nodi disgwyliadau cwsmeriaid, meithrin cydberthynas â chwsmeriaid, annog adborth gan gwsmeriaid, ymateb i adborth gan gwsmeriaid a darparu gwasanaethau a chyfleusterau i gwsmeriaid.
2.1.3 Egwyddorion gwasanaeth da i gwsmeriaid	Dylai dysgwyr wybod a deall egwyddorion gwasanaeth da i gwsmeriaid, gan gynnwys gwrando ac ymateb, amynedd, empathi, cwrteisi, gwybodaeth am gynhyrchion a gwasanaethau a bod yn chwaraewr tîm.
2.1.4 Sefyllfaoedd pan fydd busnesau adwerthu yn	Dylai dysgwyr wybod a deall y sefyllfaoedd gwahanol y bydd busnesau adwerthu yn rhyngweithio â chwsmeriaid, gan gynnwys wrth werthu cynhyrchion a gwasanaethau, ymateb i ymholiadau, rhoi cyngor, rhoi gwybodaeth am gynnyrch, darparu gwasanaethau

rhyngweithio â chwsmeriaid	ychwanegol fel cyllid neu yswiriant, datrys cwynion a gwasanaeth ôl-werthu. Dylai dysgwyr allu cymhwyso gwybodaeth am bwysigrwydd, nodweddion ac egwyddorion gwasanaeth i gwsmeriaid at sefyllfaoedd adwerthu gwahanol ar gyfer cynhyrchion gwahanol ac mewn mathau gwahanol o sefydliadau adwerthu.
2.1.5 Gwasanaethau i gwsmeriaid ar-lein	Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae gwasanaeth i gwsmeriaid yn cael ei gynnal ar-lein , a sut mae nodweddion, egwyddorion a sefyllfaoedd gwasanaeth i gwsmeriaid yn cael eu haddasu ar gyfer e-fasnach ac m-fasnach.

2.2 Bodloni disgwyliadau cwsmeriaid

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o fodloni disgwyliadau cwsmeriaid, gan gynnwys:

2.2.1 Mathau o gwsmeriaid adwerthu

2.2.2 Disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid adwerthu

2.2.3 Sut mae busnesau adwerthu yn bodloni disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid.

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.2.1 Mathau o gwsmeriaid adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall y mathau gwahanol o gwsmeriaid adwerthu gan gynnwys cwsmeriaid sy'n bodoli eisoes, cwsmeriaid newydd, unigolion, grwpiau (e.e. teuluoedd), grwpiau oedran gwahanol a chwsmeriaid ag anghenion ychwanegol. Dylai dysgwyr wybod a deall sut bydd busnes adwerthu yn addasu/personoli ei wasanaeth i gwsmeriaid.
2.2.2 Disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid adwerthu	Dylai dysgwyr wybod a deall disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid adwerthu, gan gynnwys bod cwsmeriaid yn gallu cael mynediad at wybodaeth am y cynnyrch neu wasanaeth, cyfathrebu, cyngor, argaeledd cynnyrch, dewis o sianeli adwerthu, dulliau talu, talu diogel, dosbarthu a gwasanaeth ôl-werthu. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod y cwsmer adwerthu modern yn wybodus ac yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael mewn marchnad gystadleuol ac y gall disgwyliadau cwsmer adwerthu fod yn wahanol yn dibynnu ar y math o gynnyrch sy'n cael ei brynu a gwerth y cynnyrch hwnnw.
2.2.3 Sut mae busnesau adwerthu yn bodloni disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid	Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae busnesau adwerthu yn bodloni disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid , gan gynnwys bodloni disgwyliadau a mynd y tu hwnt iddynt, ansawdd gwasanaeth, meithrin perthynas â chwsmeriaid, cynnig profiad didrafferth ar

	draws sianeli adwerthu gwahanol a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf mewn siopau. Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae busnesau adwerthu yn bodloni disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid ar-lein drwy wasanaethau fel clicio a chasglu a dewisiadau aml-sianel, dosbarthu brys, dosbarthu am ddim, tracio dosbarthiad, proses dychwelyd cynnyrch hawdd, cyfathrebu, preifatrwydd a data a sicrwydd ariannol.
--	--

2.3 Ymchwilio i brofiadau cwsmeriaid mewn busnesau adwerthu

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ymchwilio i brofiadau cwsmeriaid mewn busnesau adwerthu, gan gynnwys:

- 2.3.1 Dulliau ymchwil a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth am adborth cwsmeriaid am fusnesau adwerthu
- 2.3.2 Arfer da wrth gynnal ymchwil cwsmeriaid
- 2.3.3 Cyflwyno gwybodaeth ymchwil am fusnesau adwerthu
- 2.3.4 Defnyddio gwybodaeth ymchwil am fusnesau adwerthu fel sail i benderfyniadau.

Cynnwys	Ymhelaethiad
2.3.1 Dulliau ymchwil a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth am adborth cwsmeriaid am fusnesau adwerthu	Dylai dysgwyr allu creu a defnyddio dulliau ymchwil, gan gynnwys: • cynradd – holiaduron, rhestru gwirio siopwr dirgel, cwestiynau cyfweiliad a chwestiynau grwpiau ffocws • eilaidd – log ymchwil ar y rhynggrwyd/gwefan. Dylai dysgwyr allu profi dulliau ymchwil i sicrhau eu bod yn gywir, heb wallau ac yn addas i'r pwrpas.
2.3.2 Arfer da wrth gynnal ymchwil cwsmeriaid	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • cynnal arolwg o brofiadau cwsmeriaid mewn busnes adwerthu gan ddefnyddio cyfuniad o ymchwil cynradd ac eilaidd • dewis sampl addas o gyfranogwyr i gymryd rhan yn yr ymchwil ac adnabod tuedd samplu • cofnodi gwybodaeth yn gywir.
2.3.3 Cyflwyno gwybodaeth ymchwil am fusnesau adwerthu	Dylai dysgwyr allu defnyddio technegau cyflwyno addas i strwythuro canfyddiadau ymchwil gan gynnwys amrywiaeth o ddiagramau fel siartiau, tablau a graffiau, a chyfathrebu ysgrifenedig estynedig i gyflwyno gwybodaeth ansoddol a meintiol.
2.3.4 Defnyddio gwybodaeth ymchwil am fusnesau adwerthu fel sail i benderfyniadau	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: • dehongli canfyddiadau ymchwil er mwyn dadansoddi profiadau cwsmeriaid mewn busnesau adwerthu • llunio barn wybodus a dod i gasgliadau o'r canfyddiadau ymchwil.

Uned 3

Teitl yr uned	Marsiandïo a marchnata cynhyrchion adwerthu
Cod cofrestru'r uned	
ORIAU DYSGU DAN ARWEINIAD (ODA)	36
Cyd-destun galwedigaethol	Nid yw'r diwydiant adwerthu yn ymwneud â gwerthu yn unig. Mae llawer o gyfleoedd i unigolion creadigol yn y broses o farsiandïo a marchnata cynhyrchion ar gyfer sefydliadau adwerthu. Bydd y wybodaeth a'r sgiliau yn yr uned hon yn eu galluogi i ddeall pwysigrwydd bod yn greadigol yn y diwydiant adwerthu a datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol gan adwerthwyr i roi mantais gystadleuol iddynt.
Trosolwg o'r uned	Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i bwysigrwydd marsiandïaeth weledol a marchnata i sefydliadau adwerthu. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o bwrpas ac egwyddorion marsiandïaeth weledol a'r ffyrdd mae sefydliadau adwerthu yn defnyddio marsiandïaeth weledol yn eu siopau gwirioneddol ac ar-lein i ddenu cwsmeriaid a chyflawni eu nodau. Bydd angen i ddysgwyr ddylunio gosodiadau marsiandïaeth weledol ac esbonio sut bydd y gosodiadau hyn yn targedu cwsmeriaid ac yn helpu i gyflawni nodau. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae sefydliadau adwerthu yn defnyddio marchnata i gyflawni eu nodau. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd adnabod a thargedu cwsmeriaid a sut y defnyddir y cymysgedd marchnata i gyflawni nodau, gan gynnwys y defnydd cynyddol o dechnoleg i hyrwyddo. Bydd angen i ddysgwyr ddylunio deunyddiau hyrwyddo ac esbonio sut bydd y deunyddiau hyn yn targedu cwsmeriaid ac yn helpu i gyflawni nodau. Bydd angen i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r dealltwriaeth a feithrinwyd yn Unedau 1 a 2 drwy'r uned hon, gan gynnwys: 1.1.1 Mathau o weithgaredd busnes adwerthu 1.1.2 Mathau o berchnogaeth busnes adwerthu 1.1.3 Graddfa wahanol busnesau adwerthu 1.1.4 Nodau busnesau adwerthu 1.2.1 Yr amgylchedd cystadleuol a dynamig 1.2.2 Lleoliad busnesau adwerthu 2.1.1 Pwysigrwydd gwasanaeth i gwsmeriaid i fusnesau adwerthu 2.2.1 Mathau o gwsmeriaid adwerthu 2.2.2 Disgwyliadau mathau gwahanol o gwsmeriaid adwerthu

Testunau	3.1 Marsiandïaeth weledol ar gyfer busnes adwerthu 3.2 Marchnata busnesau a chynhyrchion adwerthu
Asesu	Asesir yr uned hon yn fewnol drwy asesiad dan reolaeth sydd ar gael ym mis Ionawr a mis Mai ym bob blwyddyn. Hyd: 8 awr Nifer y marciau: 60 Fformat: Bydd ymgeiswyr yn gwneud cyfres o dasgau gosod y mae angen eu cymhwyso at gyd-destun rhagnodedig a osodir yn flynyddol gan CBAC. Bydd yn cael ei gyhoeddi i ganolfannau mewn pecyn asesu drwy Wefan Ddiogel CBAC. Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster.

3.1 Marsiandiaeth weledol ar gyfer busnes adwerthu

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ganlynol o farsandiaeth weledol:

- 3.1.1 Pwrpas marsiandiaeth weledol
- 3.1.2 Mathau o farsandiaeth weledol
- 3.1.3 Egwyddorion marsiandiaeth weledol
- 3.1.4 Addasu egwyddorion ar gyfer sianeli adwerthu gwahanol
- 3.1.5 Addasu egwyddorion ar gyfer mathau, graddfeydd a chynhyrchion adwerthu gwahanol
- 3.1.6 Dylunio gosodiadau marsiandiaeth weledol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
3.1.1 Pwrpas marsiandiaeth weledol	Dylai dysgwyr wybod a deall pwrpasau marsiandiaeth weledol , gan gynnwys goroesi/adennill costau, gwneud yr elw mwyaf, cynyddu gwerthiant, cynyddu cyfran marchnad, denu cwsmeriaid, cynyddu nifer yr ymwelwyr, annog prynu byrbwyll, gwerthu stoc ddiisiau, arwyddo tymoroldeb, bodloni disgwyliadau cwsmeriaid, hyrwyddo cynhyrchion yn y dyfodol a chreu teimlad o ddisgwyliad.
3.1.2 Mathau o farsandiaeth weledol	Dylai dysgwyr wybod a deall y mathau o farsandiaeth weledol , gan gynnwys y defnydd o arddangosfeydd ffenestr, cynllun y siop, arddangosfeydd mewnol, modelau arddangos, cyfuno cynhyrchion gwahanol, arddangosfeydd pwynt talu, arddangosfeydd tymhorol, arddangosfeydd digidol a'r defnydd o olau a cherddoriaeth.
3.1.3 Egwyddorion marsiandiaeth weledol	Dylai dysgwyr wybod a deall egwyddorion marsiandiaeth weledol , gan gynnwys: • adrodd stori – creu thema/stori • tirlunio – defnyddio lle, cymesuredd a chydbwysedd, ystyried llinell edrych y cwsmeriaid • lliw a golau – mae cwsmeriaid yn cael eu dylanwadu gan liwiau gwahanol a gall hyn greu effaith • manylyon – sylw i'r manylion ac ansawdd a rhoi gorffeniadau • gweadedd – bydd amrywiaeth o weadau yn aml yn gwella'r arddangosfa • technoleg – defnyddio technoleg ddigidol lle bo'n briodol, fel sgriniau digidol ac arwyddion digidol • diogelwch – dylai fod yr arddangosfa yn lân, yn daclus ac ni ddylai beryglu diogelwch cwsmeriaid.

3.1.4 Addasu egwyddorion ar gyfer sianeli adwerthu gwahanol	Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae egwyddorion marsiandïo yn cael eu haddasu ar gyfer sianeli adwerthu gwahanol, gan gynnwys: • sut bydd egwyddorion marsiandïaeth weledol yn wahanol yn dibynnu ar y sianel adwerthu, gan gynnwys siopau, e-fasnach ac m-fasnach (ar-lein), siopau dros dro (<i>pop-up</i>), marchnadoedd a chatalogau • sut mae busnesau adwerthu yn defnyddio egwyddorion marsiandïaeth weledol yn gyson ar gyfer adwerthu aml-sianel.
3.1.5 Addasu egwyddorion ar gyfer mathau, graddfeydd a chynhyrchion adwerthu gwahanol	Dylai dysgwyr wybod a deall: • sut bydd egwyddorion marsiandïaeth weledol yn wahanol yn dibynnu ar y math o adwerthu gan gynnwys siopau adrannol, archfarchnadoedd, warysau, siopau dillad/ffasiwn, siopau arbenigol, siopau cyfleustra, siopau disgownt, siopau annibynnol a siopau elusen • sut bydd egwyddorion marsiandïaeth weledol yn wahanol yn dibynnu ar y raddfa a allai fod yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang • sut bydd egwyddorion marsiandïaeth weledol yn wahanol yn dibynnu ar y cynnyrch gan gynnwys cynhyrchion darvoud, cynhyrchion nad ydynt yn ddarvoud, nwyddau gwerth uchel, cynhyrchu ar raddfa fawr, cynhyrchu ar raddfa fach, cynhyrchion bregus, eitemau mawr, dewis o gynnyrch, delwedd brand a chynhyrchion dan gyfyngiad.
3.1.6 Dylunio gosodiadau marsiandïaeth weledol	Dylai dysgwyr allu dylunio mathau gwahanol o osodiadau marsiandïaeth weledol ar gyfer sianeli adwerthu gwahanol, mathau gwahanol o adwerthwyr, mathau gwahanol o gynhyrchion adwerthu a graddfeydd busnes adwerthu gwahanol. Dylai dysgwyr allu cymhwyso egwyddorion marsiandïaeth weledol at y dyluniadau. Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae'r gosodiadau marsiandïaeth weledol a ddyluniwyd yn targedu cwsmeriaid a nodau busnesau adwerthu.

3.2 Marchnata busnesau a chynhyrchion adwerthu

Yn yr adran hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ganlynol o farchnata busnesau adwerthu:

- 3.2.1 Adnabod a thargeddu cwsmeriaid
- 3.2.2 Y cymysgedd marchnata
- 3.2.3 Dylunio deunyddiau hyrwyddo ar gyfer busnesau adwerthu
- 3.2.4 Defnyddio technoleg i hyrwyddo
- 3.2.5 Sut mae gweithgareddau marchnata yn cyfrannu at nodau.

Cynnwys	Ymhelaethiad
3.2.1 Adnabod a thargeddu cwsmeriaid	Dylai dysgwyr wybod a deall y canlynol: • pwysigrwydd adnabod cwsmeriaid i fusnes adwerthu, er mwyn deall eu disgwyliadau a thargeddu cynhyrchion a gwasanaethau addas • sut y defnyddir marchnata targed mewn gweithgareddau marchnata busnesau adwerthu, gan gynnwys rhannu'r farchnad dorfol, segmentu'r farchnad, addasrwydd cynhyrchion a dewis o gynnyrch, dewis sianel adwerthu, dewis gweithgareddau hyrwyddo priodol, dewis prisiau addas, bodloni disgwyliadau cwsmeriaid, cysylltu â gwasanaeth i gwsmeriaid, defnyddio technoleg, tymoroldeb a chynyddu gwerthiant ac elw.
3.2.2 Y cymysgedd marchnata	Dylai dysgwyr wybod a deall y cymysgedd marchnata, gan gynnwys: • sut mae busnesau adwerthu yn defnyddio cymysgedd o ddewis y cynhyrchion priodol, a werthir am y pris priodol, yn y lle priodol a gyda'r dull hyrwyddo mwyaf priodol: • Cynnyrch – unrhyw nwydd neu wasanaeth a werthir. Bydd busnesau adwerthu yn ystyried pa ddewis o gynnyrch i'w werthu, nodweddion a dyluniad cynhyrchion, gwahaniaethu rhwng cynnyrch, defnyddio brandiau, defnydd pecynnu, gwasanaeth i gwsmeriaid ac a oes gan y cynnyrch bwynt gwerthu unigryw (USP) • Pris – mae angen i fusnesau adwerthu benderfynu sut i brisio'r cynhyrchion maent yn eu gwerthu, prasio cynhyrchion ar y lefel gywir i ddenu cwsmeriaid a sicrhau eu bod yn dod yn ôl i brynu mwy. Rhaid i fusnesau adwerthu ystyried y farchnad a chystadleuwyr a chwrdd â nodau'r busnes adwerthu. Defnyddio dulliau prasio gan gynnwys cost plws, cystadleuol, treiddio, hufennu, seicolegol a nwyddau ar gollod. • Lle – y sianeli y bydd busnes adwerthu yn eu defnyddio i ddod â phrynwyr a gwerthwyr at ei gilydd. Mae'n bwysig bod y sianel adwerthu gywir yn cael ei dewis i gefnogi elfennau eraill o'r cymysgedd marchnata, gan gynnwys siopau, e-fasnach, m-fasnach, aml-sianeli, hybrid, consesiynau, siopau dros dro (<i>pop-up</i>), marchnadoedd a chatalogau

	• Dull hyrwyddo – gall busnesau adwerthu ddefnyddio nifer o ddulliau hyrwyddo gwahanol i ddenu a hysbysu cwsmeriaid gan gynnwys hysbysebu, hyrwyddiadau arwerthiant (fel BOGOF, disgowntiau, cynigion arbennig a chystadlaethau), cynlluniau teyrngarwch cwsmeriaid a marchnata uniongyrchol. • y gellir cynnal gweithgareddau hyrwyddo yn y siop, ar-lein, dyfeisiau electronig symudol, teledu, radio, papurau newydd a defnyddio cyfryngau print • sut mae cynnyrch, pris, lle a dull hyrwyddo yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r cymysgedd marchnata mwyaf priodol ar gyfer cynhyrchion mewn marchnad gystadleuol a dynamig • y bydd y cymysgedd marchnata yn cael ei effeithio gan nifer o ffactorau gan gynnwys math o adwerthwr, graddfa, cynhyrchion a dylanwadau allanol gan gynnwys yr economi, technoleg, cymdeithas, moeseg, a'r amgylchedd.
3.2.3 Dylunio deunyddiau hyrwyddo ar gyfer busnesau adwerthu	Dylai dysgwyr allu dylunio deunyddiau hyrwyddo gan gynnwys poster, taflenni, hysbysebion print, hysbysebion ar-lein, hysbysebion symudol, blogiau, hysbysebion naid a hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylai dysgwyr allu defnyddio'r canlynol: • nodweddion dylunio gan gynnwys defnyddio iaith berswadiol, gramadeg, sillafu, atalnodi, defnyddio delweddau, defnyddio lliw, addas ar gyfer y gynulleidfa darged (cwsmeriaid sy'n bodoli eisoes a chwsmeriaid newydd) a chefnogi'r cymysgedd marchnata • egwyddorion dylunio gan gynnwys hawdd ei ddeall, neges glir, trawiadol a chyson â'r ddelwedd brand. Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae'r deunyddiau hyrwyddo a ddyluniwyd yn targedu cwsmeriaid a nodau busnesau adwerthu.
3.2.4 Defnyddio technoleg i hyrwyddo	Dylai dysgwyr wybod a deall sut gellir hyrwyddo gan ddefnyddio technoleg, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, cyfryngau digidol, hysbysebu drwy beiriannau chwilio, blogiau, hysbysebion naid a hysbysebu symudol.

3.2.5

Sut mae gweithgareddau marchnata yn cyfrannu at nodau

Dylai dysgwyr wybod a deall **sut mae gweithgareddau marchnata yn cyfrannu at nodau busnes**, gan gynnwys y canlynol:

- bydd busnesau adwerthu yn defnyddio'r cymysgedd marchnata i **gyflawni nodau busnes** gan gynnwys goroesi/adennill costau, gwneud yr elw mwyaf, cynyddu gwerthiant, cynyddu cyfran marchnad, rhoi boddhad i gwsmeriaid, nodau moesegol, nodau amgylcheddol, nodau cymdeithasol a nodau adwerthu penodol (e.e. datblygu dull aml-sianel, cyflwyno desgiau talu hunanwasanaeth a chyflwyno clicio a chasglu)
- mae'r cymysgedd marchnata yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nodau a osodwyd gan fusnesau adwerthu.

4. Asesiadau

4.1 Asesiad Allanol (Uned 1)

Arholiad allanol sydd ar gael ym mis Ionawr/Chwefror a Mai/Mehefin bob blwyddyn (asesiad cyntaf ym mis Ionawr 2024) yw dull asesu Uned 1.

Bydd pob arholiad allanol yn:

- cael ei osod a'i farcio gan CBAC
- cynnwys papur 1 awr, 30 munud o hyd
- asesu cynnwys o bob testun yn yr uned ym mhob cyfres
- cynnwys 80 marc
- yn cynnwys nifer cytbwys o gwestiynau atebion byr ac estynedig, yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyd-destunau cymhwysol
- defnyddio'r berfau gorchymyn ar y rhestr yn y Canllaw Asesu yn unig
- cael ei raddio Lefel 1 Llwyddiant, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Rhagoriaeth*.

Asesir yr holl gynnwys ym mhob maes testun dros rychwant oes y fanyleb. Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir wedyn fel y sail ar gyfer marcio'r papurau arholiad.

I asesiadau allanol, rhaid i ganolfannau ddilyn dogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*, y mae copi ohoni i'w gweld yn Saesneg ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk) ac yn Gymraeg ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk).

4.2 Asesiad mewnol (Unedau 2 a 3)

Asesiad dan reolaeth a gyflwynir i'w gymedroli'n allanol ym mis Ionawr a mis Mai bob blwyddyn (asesiad cyntaf ym mis Ionawr 2023) yw dull asesu Unedau 2 a 3. Rhaid i ganolfannau ddilyn y cyfarwyddiadau ar redeg asesiadau dan reolaeth sydd i'w gweld yn y Canllaw Gweinyddu ac ym mhob Canllaw Uned. I gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn, dylai canolfannau fod â pholisi asesiad dan reolaeth ar waith (y gall fod yn rhan o bolisi Asesiad Di-arholiad y ganolfan); bydd y polisi hwn yn cael ei wirio yn rhan o broses gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

4.3 Asesiad synoptig

Uned synoptig yw Uned 3 sy'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinwyd ganddynt drwy Unedau 1 a 2 (gweler tudalen 19 am fanylion).

4.4 Pecynnau ymgeiswyr ac aseswyr

Mae Pecynnau Asesu ar gyfer ymgeiswyr ac aseswyr i'w cael ar y wefan ddiogel i'w lawrlwytho gan ganolfannau. Ni ddylai'r Pecynnau Ymgeiswyr fod ar gael i'r ymgeiswyr tan ddechrau'r asesiad sef yn ystod mis Medi pob blwyddyn academiaidd. Mae Deunyddiau Asesu Enghreifftiol i'w cael ar wefan cbac.co.uk.

4.5 Rheoli'r asesiadau

Mae'n ofynnol i ganolfannau reoli a chynnal y drefn asesu mewnol yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y Canllaw Gweinyddu. Pedwar maes sy'n cael eu rheoli: goruchwyliaeth, cyfarwyddyd, adnoddau a chydweithio. Mae'r DAE a'r canllaw uned cyfatebol yn cynnwys manylion penodol i Uned 2 ac Uned 3.

5. Oriau Dysgu Dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

5.1 Oriau Dysgu dan Arweiniad

Mae oriau dysgu dan arweiniad (ODA) yn golygu gweithgareddau fel dysgu yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau a dysgu ar-lein, sydd dan oruchwyliaeth uniongyrchol athro, tiwtor neu oruchwylwr. Mae hefyd yn cynnwys pob math o asesu sy'n digwydd dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol athro, goruchwylwr neu arolygwr.

Cyfanswm yr Oriau Dysgu dan Arweiniad sydd wedi'u neilltuo i'r cymhwyster hwn yw 120 o oriau.

Caiff oriau dysgu dan arweiniad eu dyrannu i bob uned i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno yn y ganolfan. Gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster hwn yn gyflawn ac argymhelliad yn unig felly yw nifer yr oriau dysgu dan arweiniad i bob uned.

5.2 Cyfanswm yr Amser Cymhwyso

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr oriau dysgu dan arweiniad ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

180 o oriau yw'r cyfanswm amser cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- 120 o oriau o ddysgu dan arweiniad a/neu asesiad dan oruchwyliaeth
- 60 o oriau o astudiaeth hunangyfeiriedig a all gynnwys aseiniadau a thasgau ychwanegol wedi'u gosod gan yr athro (gwaith cartref) a defnydd annibynnol o adnoddau dysgu ar-lein.

6. Cofrestriadau

6.1 Cymeradwyo Canolfannau

Er mwyn cynnig ein cymwysterau, mae'n rhaid i ganolfan gael ei chymeradwyo fel canolfan gan CBAC. Mae'r broses gymeradwyo yn cynnwys llenwi'r ffurflen(ni) cais perthnasol ac asesiad o allu'r ganolfan i fodloni gofynion CBAC a rhai perthnasol y CGC.

Os yw eich canolfan eisoes yn cynnig Cymwysterau Cyffredinol ac wedi derbyn rhif canolfan (NCN), darllenwch Amodau i Ganolfannau Cofrestredig CBAC a chysylltwch â ni i ofyn am ffurflen gais.

Os ydych chi'n sefydliad newydd, darllenwch y dogfennau canlynol cyn cysylltu â ni i drafod eich canolfan arfaethedig:

- Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy CGC
- Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau CGC
- Amodau i Ganolfannau Cofrestredig CBAC.

Os hoffai eich canolfan gyflwyno cofrestriadau a chithau heb gofrestru fel canolfan eto, yna cysylltwch â'r adran Cefnogi Canolfannau yn CBAC canolfannau@CBAC.co.uk i gael ffurflen gais. Rhaid dychwelyd y ffurflen hon wedi'i llenwi i CBAC yn ddim llai na phum mis cyn y terfyn amser cofrestru perthnasol.

Rhaid i ganolfannau cymeradwy CBAC gadw at yr **Amodau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau CBAC a rheoliadau priodol y CGC**. Rhaid i bob canolfan gymeradwy CBAC sydd â Rhif Canolfan Cenedlaethol (NCN) gwblhau'r **datganiad blynyddol a anfonir gan NCN**. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at atal cofrestriad CBAC.

6.2 Dulliau Cofrestru

Bydd cymhwyster CBAC Lefel 1/2 mewn Busnes Adwerthu ar gael i'w ardystio o fis Ionawr 2024. Wedi hynny, bydd pob cymhwyster ar gael i'w ardystio ym mis Ionawr a Mehefin bob blwyddyn.

Cofrestru ar gyfer unedau

Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer unedau unigol drwy gyflwyno'r codau uned perthnasol sydd i'w gweld ar bob uned sy'n rhan o'r fanyleb.

Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

Codau cofrestru

		Cod Cofrestru
Uned 1	Asesiad allanol	
Uned 2	Asesiad mewnol	
Uned 3	Asesiad mewnol	
Cod Cyfnewid		

7. Dyfarnu, graddio ac adrodd yn ôl

Defnyddir graddfa o 8 pwynt i ddyfarnu Dyfarniadau Galwedigaethol: Lefel 2 Rhagoriaeth*, Lefel 2 Rhagoriaeth, Lefel 2 Teilyngdod, Lefel 2 Llwyddiant, Lefel 1 Rhagoriaeth*, Lefel 1 Rhagoriaeth, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 1 Llwyddiant. Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Lefel 1 Llwyddiant yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Cofnodir unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) gan gyfateb i raddau fel a ganlyn:

Uned	Uchafswm	Lefel 2				Lefel 1			
		D*	D	M	P	D*	D	M	P
Uned 1	120	108	96	84	72	60	48	36	24
Uned 2	90	81	72	63	54	45	36	27	18
Uned 3	90	81	72	63	54	45	36	27	18
Cymhwyster	300	270	240	210	180	150	120	90	60

8. Trefniadau ailsefyll

8.1 Ailsefyll unedau cyn ardystio

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned a asesir yn **fewnol** ond ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Defnyddir y sgôr marc unffurf gorau o'r cynigion i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn **allanol**; ond, mae gofyniad terfynol o 40% yn y cymhwyster hwn y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol. Felly, dim ond y sgôr marciau unffurf o'r ymgais yn y gyfres y mae'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster ynddi a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw hon yn is na'r ymgais blaenorol.

8.2 Ailsefyll ar ôl ardystio

Gall ymgeiswyr sy'n anhapus â'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer y cymhwyster ddewis ailsefyll un neu fwy o unedau ar ôl ardystio.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn allanol, dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol. Nid oes angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol gan y gellir trosglwyddo marciau'r uned a asesir yn fewnol am hyd oes y fanyleb.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol, defnyddir yr uchaf o'r sgorau marciau unffurf naill ai o'r ymgais cychwynnol neu'r ymgais ailsefyll i gyfrifo'r radd gyffredinol. Hefyd, bydd angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn allanol i fodloni gofyniad rheol derfynol y cymhwyster. Dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais blaenorol.

8.3 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau

Ar ôl cyhoeddi canlyniadau pob cyfres arholiadau, mae CBAC yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar ôl y canlyniadau'n ymwneud ag adolygiadau o'r marcio a'r cymedroli a mynediad i sgriptiau arholiadau. Mae gwybodaeth am wasanaethau ar ôl y canlyniadau i'w gweld ar wefan Eduqas.

9. Camymddwyn

Mae gwybodaeth ynghylch Camymddwyn ar gael yn ein dogfen [Camymddwyn, Canllaw i Ganolfannau](#).

Rhaid rhoi gwybod i CBAC am bob achos o gamymddwyn honedig neu wirioneddol. Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y cânt eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cyngorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC [Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau](#).

9.1 Atal camymddwyn

Ni ddylai ymgeiswyr:

- gyflwyno gwaith lle nad eu gwaith nhw ydyw;
- darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd;
- caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol;
- cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith;
- defnyddio llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabod neu briodoli'r ffynonellau;
- cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth;
- cynnwys deunydd amhriodol, anweddus neu sarhaus.

Nid yw ymgeiswyr wedi'u gwahardd rhag benthgyl llyfrau neu adnoddau eraill i'w gilydd ond ni ddylent lôn-ladrata gwaith ymchwil ymgeiswyr eraill.

Ni ddylai ymgeiswyr roi eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylent fod yn ymwybodol o ddogfen y CGC Gwybodaeth i ymgeiswyr – Canllawiau wrth roi cyfeiriadau at arholiadau/asesiadau ar y Rhyngrwyd – <https://www.icq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/>.

Rhaid i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr sicrhau bod yr aelodau o staff sy'n ymwneud â goruchwyllo'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu asesiad dan reolaeth yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn.

Rhaid atgoffa staff addysgu bod methu â rhoi gwybod am gyhuddiadau o gamymddwyn neu amheuan o gamymddwyn ei hun yn gamymddwyn.

Rhaid i staff addysgu:

- fod yn wiliadwros o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol;
- rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn wrth y tîm uwch arweinyddiaeth neu'n uniongyrchol i CBAC.